# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY’N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 8

DELIO

*Contractau isfeddiannaeth*

### 61 Methiant i gydymffurfio ag amodau a osodir gan y prif landlord

(1) Mae’r adran hon yn gymwys os yw contract meddiannaeth (“y prif gontract”) yn caniatáu i ddeiliad y contract ymrwymo i gontract isfeddiannaeth gyda chydsyniad y prif landlord.

(2) Os yw’r prif landlord yn cydsynio yn ddarostyngedig i amodau (gweler adran 84), cyn ymrwymo i gontract isfeddiannaeth gyda pherson rhaid i ddeiliad y contract hysbysu’r person hwnnw o’r amodau hynny.

(3) Os nad yw deiliad y contract yn cydymffurfio â’r gofyniad yn is-adran (2) ac yr ymrwymir i gontract isfeddiannaeth, mae deiliad y contract i’w drin fel pe bai wedi cyflawni tor contract ymwrthodol o’r contract isfeddiannaeth (gweler adran 154).

(4) Os yw’r prif landlord yn cydsynio yn ddarostyngedig i amodau ac yr ymrwymir i gontract isfeddiannaeth—

(a) mae adran 32 i’w darllen mewn perthynas â’r contract hwnnw fel pe bai’n darparu (yn ychwanegol at y gofynion eraill yn yr adran honno) fod yn rhaid i’r datganiad ysgrifenedig o’r contract isfeddiannaeth nodi’r amodau a osodir gan y prif landlord, a

(b) mae adran 37 i’w darllen mewn perthynas â’r contract hwnnw fel pe bai’n darparu (yn ychwanegol at y darpariaethau eraill yn yr adran honno)—

(i) yn is-adran (1), y caiff yr is-ddeiliad wneud cais i'r llys am ddatganiad bod y datganiad ysgrifenedig yn nodi amod yn anghywir neu'n nodi amod na chafodd ei gosod gan y prif landlord,

(ii) bod gan y prif landlord hawl i fod yn barti i'r achos ar y cais, a

(iii) y caiff y llys, os yw'n fodlon bod y naill neu'r llall o'r seiliau yn is-baragraff (i) wedi ei phrofi, wneud datganiad yn nodi'r amod cywir neu, yn ôl y digwydd, y caiff ddatgan nad yw'r amod yn amod a osodwyd gan y prif landlord.

(5) Nid yw contract isfeddiannaeth wedi ei wneud yn unol â'r prif gontract ond oherwydd—

(a) bod y prif landlord yn cydsynio yn ddarostyngedig i amodau, a

(b) na chydymffurfir â'r amodau.

(6) Mewn achos o'r fath caiff y prif landlord ddewis trin y contract isfeddiannaeth fel contract safonol cyfnodol sydd â'r nodweddion a ganlyn—

(a) mae'r holl ddarpariaethau sylfaenol ac atodol sy'n gymwys i gontract safonol cyfnodol wedi eu hymgorffori heb eu haddasu,

(b) nid oes effaith i unrhyw delerau yn y contract diogel neu'r contract safonol cyfnod penodol sy'n anghydnaws â'r darpariaethau sylfaenol neu atodol hynny, ac

(c) fel arall, mae telerau'r contract safonol cyfnodol yr un fath â thelerau'r contract diogel neu'r contract safonol cyfnod penodol.

(7) Os yw'r prif landlord yn dewis ei drin fel contract safonol cyfnodol o dan is-adran (6), rhaid i'r prif landlord hysbysu deiliad y contract a'r isddeiliad am y dewis hwnnw.

(8) Dim ond ar ôl i'r contract isfeddiannaeth gael ei wneud a chyn diwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r prif gontract yn dod i ben y caiff y prif landlord roi hysbysiad o dan is-adran (7).

(9) Os yw'r prif landlord yn rhoi hysbysiad yn unol ag is-adrannau (7) a (8), mae'r contract i'w drin fel contract safonol cyfnodol sydd â'r nodweddion a grybwyllir yn is-adran (6) o ran unrhyw gwestiwn sy'n codi rhwng yr isddeiliad ac unrhyw berson heblaw deiliad y contract.